OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 867 (Cy. 189)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020

*Cymeradwywyd gan Senedd Cymru*

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 2.50 p.m. ar 14 Awst 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *am 5.50 p.m ar 14 Awst 2020* |
| *Coming into force - -* | *17 Awst 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi a dod i rym

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 a deuant i rym ar 17 Awst 2020.

### Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/752 (Cy. 169)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/803 (Cy. 176)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/820 (Cy. 180)) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/843 (Cy. 186)).

(2) Yn rheoliad 12—

(a) yn y geiriau ar ddechrau paragraff (2), ar ôl "fangre," mewnosoder "neu o ledaenu'r coronafeirws gan y rhai sydd wedi bod yn y fangre";

(b) ar ddiwedd paragraff (2A), mewnosoder—

"(c) casglu gwybodaeth gyswllt oddi wrth bob person yn y fangre neu, mewn perthynas â phersonau o'r un aelwyd, oddi wrth un ohonynt, a'i chadw am 21 o ddiwrnodau at ddiben ei darparu i Weinidogion Cymru neu i swyddog iechyd cyhoeddus ar gais y naill neu'r llall.";

(c) ar ôl paragraff (4), mewnosoder—

"(5) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "gwybodaeth gyswllt", mewn perthynas â pherson yn y fangre, yw enw'r person a gwybodaeth sy'n ddigonol i allu dod o hyd i'r person, i roi gwybod i'r person y gall fod wedi dod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre (yn cynnwys rhif ffôn a'r dyddiad a'r amser yr oedd y person yn y fangre);

(b) mae i "swyddog iechyd cyhoeddus" yr un ystyr ag a roddir i "public health officer" ym mharagraff 3(2)(c) o Atodlen 21 i Ddeddf y Coronafeirws 2020(**3**).".

(3) Yn rheoliad 20—

(a) hepgorer paragraff (3A);

(b) ym mharagraff (4), yn lle "unrhyw drosedd arall" rhodder "trosedd".

(4) Yn Atodlen 5, ym mharagraff 5(6), yn lle "ddigolledu'r person sy'n gyfrifol am y fangre" rhodder "dalu digollediad".

**Arbedion ar gyfer troseddau a chosbau mewn perthynas â gweithredoedd blaenorol**

**3.** Mae rheoliadau 20 ac 21 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnir, neu y credir yn rhesymol ei bod wedi ei chyflawni, cyn i'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn ddod i rym fel pe na bai'r diwygiadau hynny wedi eu gwneud.

*Mark Drakeford*
Am 2.50 p.m. ar 14 Awst 2020 — Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru

(**3**) 2020 p. 7.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau—

(a) yn pennu bod casglu gwybodaeth gyswllt oddi wrth bobl at ddiben rhoi gwybod i'r rhai a all fod wedi dod i gysylltiad â'r coronafeirws yn "mesur rhesymol" y gall bod yn ofynnol ei gymryd, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, o dan reoliad 12 o'r prif Reoliadau;

(b) yn egluro mai dirwy (ac nid cyfnod yn y carchar) yw uchafswm y gosb am dorri'r gofyniad i gau mangre ar ôl i hysbysiad cau mangre gael ei ddyroddi o dan baragraff 3(1) o Atodlen 5 i'r prif Reoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.